# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 3ydd yn Neuadd Ffostrasol

**Yn bresennol** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd) Cyng. Mark Davies, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Rob Jones, Cyng. Sian Williams, Cyng. Carol Davies, Cyng. Ceri Jones

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng Llyr Evans, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Osian Davies

**2. Datgan Diddordeb**

Neb

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

Cafodd pawb gopi o Gofnodion mis Chwefror – gofynwyd i'r Clerc ychwanegu :

3.1 Roedd Cyng. Osian Davies wedi cadeirio'r cyfarfod trwy Teams.

3.2 Roedd 2 aelod o'r cyhoedd wedi dod i'r cyfarfod a gofynwyd iddynt ddanfon e bost i'r clerc os oeddynt am drafod rhwbeth yn benodol.

Cynnigodd Cyng. Rob Jones bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Cyng. Emyr Jones.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

Mae ishe'r clerc lenwi ffurflenni Pension Regulator erbyn diwedd mis Mawrth. Mae eisiau newid cyfeiriad hefyd.

**5. Cyrsiau**

**5.1** Helen wedi cwblhau cwrs Cynefino i Gynghorwyr Newydd ar 18.03.26 ac mae cwrs 'Code of Conduct' ganddi 05.03.26.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

6.1 Cafodd cyfarfod llawn ei gynnal yn Penmorfa ar Ddydd Llun Mawrth 2ail i drafod y Cyllideb.

6.2 £200,000 yn cael ei roi i Gyflogaeth Graddedigion, £600,000 i ysgolion y sir – y swm yn dibynnu a rhifau'r ysgol; £1, 000,000 i Capital Projects – Ysgolion Penparc, Rhydypennau ac Aberaeron, Fferm

Lletytwppa, a  Prosiect Amddiffyn Arfordirol Aberystwyth; £30,000 y flwyddyn i Calon Tysul, Llandysul; £11,000 ychwanegol i Bwll Nofio Aberaeron.

6.3 Mae treth Cyngor yn codi 4.75% - tua £7.47 yn fwy ar gatref Band 'D'.

6.4 Nid oes torriadau mewn gwasanaethau am yr ail flwyddyn .

6.5 Mae diwrnod agored yn Lletytwppa ar 06.03.26 o 10 y bore hyd 3 or gloch y prynhawn.

**7. Gohebiaeth**

7.1 Un Llais Cymru – Archebu pecyn Bioamrwyiaeth erbyn 27 o Chwefror.

7.2 Cyngor Sir – Bwletin mis Chwefror Cynnal y Cardi.

7.3 Cyngor Sir – Bwletin Costau Byw Chwefror + Poster.

7.4 Heartbeat Trust Uk – Anfoneb am y 'Bleed Kits'.

7.5 Un Llais Cymru – Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru  a Chymorth Cynllunio Cymru – ATGOFFA Mawrth 19 10.30-1.30 £53 y person.

7.6 Un Llais Cymru – Cylchlythyr y Comisiynydd – Chwefror2026- Comisiynydd Pobl Hyn Cymru.

7.7 Un Llais Cymru – Cadarnhad Hyfforddiant i'r Clerc.

7.8 Un Llais Cymru – Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol COVID- 19 2026 ar Ddydd Sul 8fed o Fawrth.

7.9 Un Llais Cymru – nodi fod sesiwn 'Lunch & Learn' wedi newid o'r 3ydd o Fawrth i'r 24ain o Fawrth – Age Cymru.

7.10 Un Llais Cymru – E Bwletin rhif 18

7.11 Un Llais Cymru – Publication of the Annual Remuneration Report 2026-2027. Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth.

7.12 Sioe Tivyside -  gofyn am gyfraniad.

7.13 Hywel Dda – Bwrdd Iechyd yn penderfynnu ar y model gofal i'r dyfodol ar gyfer cynllun Gwasanaethau Clinigol.

7.14 Un Llais Cymru – Training Handouts – New Councillor Induction.

7.15 Solutions Factory – Anfoneb 3765

7.16 Un Llais Cymru – Dyddiadau Pwysig

7.17 Un Llais Cymru – Cylchlythyr Chwefror 2026 – Cefnogi'r Argyfwng Costau Byw.

7.18 HUTS – Cais am arian.

7.19 Un Llais Cymru – Aelodaeth Un Llais Cymru2026-27 £299.

7.20 C FF I Troedyraur – cais am arian.

**8. Cyllid**

8.1 Gwnaeth Cyng. Ceri Jones a Cyng. Maldwyn Lewis arwyddo sieciau i :

Clerc £541.08; HMRC £67.60; Ashmole £159; Heartbeat Trust UK £855; Solutions Factory £150; £42 Un Llais Cymru.

**9. Cyfansoddiad**

9.1 Pawb i ddarllen y cyfansoddiad erbyn cyfarfod mis Ebrill.

**10. Bioamrywiaeth**

10.1 Mae eisiau neud cynllun i Un Llais Cymru bydd yn para 3 blwyddyn. Cafodd yr un diwethaf i neud yn 2025.

10.2 Mae Cyng. Sharon Thomas wedi bod ar gwrs yn ddiweddar – mae nodiadau gyda hi.

**11. Asesiad Risg**

11.1 Diolch i Cyng. Mark Davies am helpu ddiweddaru'r Asesiad Risg. Pawb i edrych arno erbyn cyfarfod mis Ebrill.

**12.Materion Ardal**

12.1 **Ffostrasol** – Mae sbwriel ar ochor yr hewl i Plwmp wedi gwaethygu'n ofnadwy. Ishe danfon gwybodaeth i CLIC.

12.2 Mae noson o hwyl ac ocsiwn yn cael ei gynnal yn y tafarn ar nos Sadwrn 07.03.26 gan Clwb Pel Droed Ffostrasol. Arian yn mynd i apel Arch Noa.

12.3 **Coedybryn –** Mae fans yn dreifo rownd y pentref yn hwyr yn y nos. Mae pobol yn dweud ei bod yn actio'n amheus iawn a mae rhai wedi tynnu lluniau ohonynt.

12.4 Mae car wedi parcio yn maes parcio'r neuadd ers rhai wythnosau.

12.5 Mae Clwb Cwcan Cynllo wedi bod yn cael cinio i ddathlu Dydd Gwyl Dewi yng Nghaffi Emlyn, Tanygroes. Cafwyd arian grant gan Ceredigion Oed Cyfeillgar.

12.6 **Penrhiwpal –** Mae dwr dal yn broblem ger Ffarm Ffynnon Fair , hewl fach i Fryngwenith. Mae eisiau'r clerc ddanfon manylion i Gyngor Cymuned Llandyfriog.

12.7 **Croeslan** - Mae amseroedd bysiau ysgol wedi newid. Mae cludiant i fod i blant sy'mn byw tu allan i Landysul. Mae'r bws nawr yn codi'r plant am 8.15 y bore a maent yn mynd ar hewlydd bach Tregroes, Prengwyn, Gorrig ayb. Mae'r daith yn para 42munud. Nid yw'r plant adref hyd 4.25. Mae'r bws yn mynd ar hewlydd bach sy'n cael llifogydd cyson ac nid ydynt yn cael ei graenu. Mae hyn yn peri gofid i'r rhieni. Mae 3 cynghorwr yn cael ei effeithio – 2 ohonynt gyda plant, ac 1 gyda awyrion. Mae rhaid hala neges i CLIC , Cyng. Wyn Thomas a CPTU@Ceredigion.gov .

12.8 Buodd damwain cas ger Croeslan . Cafodd chwaer Ben Lake niwed yn y digwyddiad.

12.9 Mae C FF I Pontsian a C FF I Troedyraur wedi neud yn dda yng nghystadleuaeth hanner awr adloniant y sir leni.

12.10 Mae Steve Owen , Penrhiwllan wedi cerdded dros 100 milltir i Woody's Lodge.

12.11**Rhydlewis –** Mae'r hewl o'r neuadd lan i'r ysgol yn frwnt ofnadwy. Mae llawer o fwt arni a mae eisiau rhoi neges ar CLIC i ofyn am lori 'Sweeper'.

12.12 Mae eisiau rhoi gwbod i CLIC hefyd am dyllau mawr sydd ar yr hewl tu allan i Garej y Ddol.

12.13 Mae Gavin (Openreach) a Sandy yn neuadd y pentref 14.03.26 0 10-12 i drafod am y Rhyngrwyd cyflym.

**13. Cyfarfod Nesaf**

15.1 Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn, nos Fawrth 7fed Ebrill 2026 am 7.30.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

| | |
|---|---|
| | 27.04.2026 |
| ------------------------------------------------------- | ------------------------------------------------- |
| Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) | Dyddiad |